# Fframwaith Arferion Da ar gyfer Darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Pobl Ddigartref a'r rhai sydd â Phroblemau gyda'u Llety

Fframwaith Arferion Da ar gyfer Darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Pobl Ddigartref a'r rhai sydd â Phroblemau gyda'u Llety

# Cynnwys

## RHAN A: Cefndir

**1 Trosolwg**

**2 Cyd-destun**
2.1 Diffinio digartrefedd
2.2 Pobl sy'n cysgu ar y stryd
2.3 Preswylwyr hosteli a chysgodfannau nos
2.4 Preswylwyr tai gwely a brecwast
2.5 Teuluoedd digartref
2.6 Pobl sy'n aros dros dro gyda theulu a ffrindiau
2.7 Sgwatwyr
2.8 Troseddwyr digartref

**3 Cwestiynau ynghylch deddfwriaeth digartrefedd**

## RHAN B: Y safonau

**4 Gwasanaethau i'r digartref (statudol a gwirfoddol)**
4.1 Asesu - gwasanaethau arbenigol i'r digartref
4.2 Cyfeirio at driniaeth arbenigol
4.3 Protocol ar gyfer cydweithio
4.4 Gwasanaethau seiciatrig

**5 Gwasanaethau arbenigol i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau**

5.1 Ymyriadau allweddol

**6 Gwasanaethau arbenigol i bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau**
6.1 Allgymorth ar y stryd
6.2 Canolfannau dydd
6.3 Hosteli, cysgodfannau a darpariaeth mewn argyfwng

**7 Llety i bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau**
7.1 Asesu anghenion am lety a'u diwallu
7.2 Cysgodfannau nos
7.3 Hosteli
7.4 Tai â chymorth
7.5 Swyddogaeth tai parhaol er mwyn trin camddefnydd sylweddau yn effeithiol
7.6 Dehongli deddfwriaeth digartrefedd
7.7 Cyd-drefnu gosod tai ac anghenion am driniaeth
7.8 Maes ar gyfer newid pwyslais (adsefydlu)
7.9 Cefnogi tenantiaid

**8 Ffynonellau/cyfeiriadau ar gyfer y fframwaith**

# Fframwaith arferion da ar gyfer darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl ddigartref a'r rhai sydd â phroblemau gyda'u llety

## RHAN A: Cefndir

### 1. Trosolwg

Mae unigolion sy'n ddigartref mewn iechyd corfforol a meddyliol salach na'r boblogaeth drwyddi draw ac yn aml fe gânt broblemau i gael triniaeth addas. Ceir tystiolaeth i awgrymu mai'r prif broblemau y mae'r garfan hon o bobl yn eu hwynebu, o ran camddefnyddio sylweddau, yw sut i gael mynediad at wasanaethau arbenigol, sut i osgoi mynd yn ôl i'r un amgylchiadau a arweiniodd at eu problem wreiddiol, a sut i sicrhau cefnogaeth ar gyfer ystod o wahanol anghenion eraill.[1]

Mae poblogaeth y rhai sy'n ddigartref yn dioddef mwy o broblemau iechyd na'r boblogaeth yn gyffredinol, a'r hyn sy'n eu nodweddu'n aml yw amrywiaeth o broblemau iechyd (sef yn bennaf, bod yn ddibynnol ar gamddefnyddio alcohol a chyffuriau, ac anhwylderau meddyliol) a marw annhymig.[1, 2] Mae tystiolaeth y gall ymyriadau ymddygiadol ar gyfer camddefnyddio sylweddau a dibyniaeth ar alcohol rymuso pobl ddigartref ac arwain at gynnydd mewn iechyd sydd yn para, yn ogystal â helpu i sicrhau eu bod yn dal ati gyda thriniaeth. Ymhlith yr ymyriadau iechyd sy'n effeithiol ar gyfer dibyniaeth ar gamddefnyddio sylweddau y mae ymyriadau fferyllol, brechiad hepatitis B, cyngor ar chwistrellu diogelach a mynediad at raglenni cyfnewid nodwyddau[1]. Mae ystod o arferion da mewn perthynas ag anghenion eraill pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau hefyd yn dod i'r amlwg[3].

*Er mwyn darparu gwasanaethau sy'n ymyrryd yn effeithiol ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid, mae'n amlwg fod angen:*

- *i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i bobl ddigartref fod â rhan yn y prosesau cynllunio/comisiynu dan y Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau a'r Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yng Nghymru;*
- *sefydlu perthynasau gwaith effeithiol, cyd-brotocolau a hyfforddiant ar y cyd rhwng darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol ac asiantaethau digartrefedd/awdurdodau tai*.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil ddiweddar wedi canolbwyntio ar anghenion pobl ddigartref sydd heb blant am gefnogaeth. Cafwyd llawer llai o waith ar anghenion posibl teuluoedd digartref am gefnogaeth a bu tuedd i ragdybio mai eu prif angen, neu eu hunig angen, yw cael tŷ. Efallai fod ar rai teuluoedd digartref angen cefnogaeth arall, gan gynnwys cymorth oherwydd eu bod yn camddefnyddio sylweddau.

Mae'r fframwaith hwn yn ystyried anghenion y boblogaeth sy'n oedolion ac yn ddigartref yng Nghymru a dylid ei ystyried ochr yn ochr â fframweithiau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn rhai sydd yn bodoli a rhai sy'n cael eu datblygu, ar drin camddefnydd sylweddau ac adsefydlu. Mae'r dogfennau hyn yn ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol. Fframwaith sy'n arbennig o berthnasol yw'r un ar gyfer cleientiaid sydd ag anghenion iechyd meddwl a chamddefnydd sylweddau ar yr un pryd, a'r gwaith sy'n parhau ar Niwed Cudd.[4]

At hynny, mae angen ystyried y fframwaith hwn yng nghyd-destun datblygu Strategaethau Iechyd a Lles a Chreu'r Cysylltiadau.

## 2. Cyd-destun

Defnyddir y term digartrefedd yn gyffredin i ddisgrifio ystod eang o amgylchiadau lle nad oes gan bobl gartref diogel. Diffinnir digartrefedd mewn deddfwriaeth at ddibenion pennu hawl i gymorth gan awdurdodau lleol ac fe ddiffinnir rhai grwpiau dan y gyfraith fel rhai y mae eu hangen am dai i gael blaenoriaeth. Er hynny, er mwyn targedu gwasanaethau trin camddefnydd sylweddau i gyrraedd y bobl ddigartref mwyaf anodd i'w cyrraedd, mae angen ystyried ystod ehangach o gleientiaid. Bydd y dyletswyddau, o safbwynt tai, y mae awdurdodau lleol i'w cyflawni ar gyfer pobl ddigartref sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, yn amrywio (gweler adran 3). Efallai na fydd llawer o'r bobl sydd mewn mwyaf o lanast ac sy'n fwyaf agored i niwed mewn cysylltiad ag awdurdodau tai o gwbl ond mae'n bosibl y byddant mewn cysylltiad ag asiantaethau gwirfoddol. Gan hynny, mae'r fframwaith hwn yn berthnasol i'r holl asiantaethau sydd yn gweithio gyda phobl ddigartref sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

### 2.1 Diffinio digartrefedd

Ceir diffiniad statudol o ddigartrefedd yn Neddf Tai 1996[5], sy'n ymwneud â'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol. Mae'r diffiniad cul hwn yn canolbwyntio ar y cwestiwn a oes gan rywun le y gallant yn gyfreithlon ei feddiannu ac y mae'n rhesymol iddynt aros ynddo.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod diffiniad ehangach yn ei God Canllawiau ar Ddigartrefedd[6], sydd yn fwy cynhwysfawr, a dyma'r diffiniad y dylid ei ddefnyddio yng nghyd-destun y ddogfen hon. Yn y diffiniad hwn fe ddiffinnir digartrefedd fel:

> *'Lle bo unigolyn heb lety neu lle nad yw ei ddeiliadaeth yn ddiogel'.*

**Ymhlith y bobl a gynhwysir yn y diffiniad hwn y mae:**

- *y rhai sy'n cysgu ar y stryd;*
- *y rhai sy'n byw mewn tai anniogel/dros dro (ac eithrio tenantiaid gyda thenantiaeth sicr/fyrddaliol sicr);*
- *y rhai sy'n byw mewn hosteli tymor byr, cysgodfannau nos, hosteli mynediad uniongyrchol;*
- *y rhai sy'n byw mewn tai gwely a brecwast;*
- *y rhai sy'n symud yn aml i dai gwahanol berthnasau/ffrindiau;*
- *sgwatwyr;*
- *y rhai na allant aros yn eu tai neu ddychwelyd yno oherwydd amodau gwael, fod y lle'n orlawn, problemau gyda fforddio'r lle, trais yn y cartref, aflonyddu, cam-drin meddyliol, corfforol a/neu rywiol, anaddasrwydd y lle i'w hanghenion corfforol;*
- *y rhai sy'n wynebu bygythiad y byddant yn colli eu cartref ac sydd heb lety arall addas am unrhyw reswm;*
- *y rhai y mae teulu neu ffrindiau yn mynnu eu bod yn gadael neu lle mae perthynas wedi chwalu;*
- *y rhai sydd o fewn tri mis i ddiwedd eu tenantiaeth ac sy'n wynebu achos meddiannu neu y bygythir eu troi allan.*

Mae'r diffiniad hwn yn cydnabod digartrefedd mewn amrywiaeth eang o wahanol amgylchiadau. Yn y paragraffau isod fe ddisgrifir rhai o'r prif gyd-destunau lle bydd angen i wasanaethau camddefnyddio sylweddau fod o fewn cyrraedd pobl ddigartref.

### 2.2 Pobl sy'n cysgu ar y stryd

Er mai cyfran fechan o'r bobl sy'n ddigartref sydd yn cysgu ar y stryd, dyma yw'r digartrefedd mwyaf eithafol a dyma'r garfan lle ceir mwyaf o bobl sydd angen cefnogaeth ar gyfer ystod o wahanol anghenion. Gellir eu diffinio fel:

> '*Pobl sy'n cysgu, neu wedi gosod eu gwely, yn yr awyr agored; pobl mewn adeiladau a mannau eraill nad ydynt wedi eu dynodi (yn addas) ar gyfer preswylio*'.

Bydd y diffiniad hwn yn cynnwys, er enghraifft, bobl sy'n cysgu ar y strydoedd, mewn drysau, mewn parciau, mewn llochesi bws, neu adeiladau nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer byw ynddynt megis ysguboriau, siediau, meysydd parcio, ceir, hen gychod, gorsafoedd, sgwatiau, pebyll neu gysgodfannau ffwrdd-a-hi.

### 2.3 Preswylwyr hosteli a chysgodfannau nos

Fel rheol bydd cysgodfannau nos yn cynnig llety sylfaenol mewn argyfwng i bobl sydd wedi bod yn cysgu ar y stryd neu y mae perygl y byddant yn cysgu ar y stryd. Mae hosteli'n amrywio'n fawr, o lety mynediad uniongyrchol mewn argyfwng ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd, i lety y mae myfyrwyr neu weithwyr ifanc yn ei rannu a'r rheini'n bobl nad oes arnynt angen unrhyw gefnogaeth efallai. Nid yw pob hostel yn rhoi llety i bobl ddigartref ac mae'n bwysig pennu'r grŵp targed o hosteli cyn eu cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer trin camddefnyddio sylweddau. Yn y gorffennol, mae pobl sy'n ddigartref yn y tymor hir yn aml wedi defnyddio cysgodfannau nos a hosteli ar gyfer y digartref, fel man i gael lloches dros dro tra'n parhau'n ddigartref a bu rhai cleientiaid hŷn yn mynd i hostel ac yn cysgu ar y stryd bob yn ail am flynyddoedd lawer. Gan ei bod yn anodd iawn i bobl sy'n cysgu ar y stryd gael triniaeth camddefnyddio sylweddau na pharhau gyda'r driniaeth heb iddynt fod â llety sefydlog, mae hosteli'n cynnig cyfle pwysig i'r bobl hyn gymryd y cam cyntaf i dderbyn gwasanaeth a chael triniaeth.

### 2.4 Preswylwyr tai gwely a brecwast

Mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi llawer o deuluoedd digartref mewn tai gwely a brecwast fel llety dros dro, yn aml am fod prinder tai cymdeithasol parhaol. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ddigartref sydd heb blant hefyd yn mynd eu hunain i dai gwely a brecwast am nad oes ganddynt unman arall i fynd ac efallai y bydd pobl yn yr amgylchiadau hyn ar eu pennau'n hunain heb gysylltiad ag unrhyw wasanaethau cefnogi. Efallai y bydd eraill yn defnyddio canolfannau dydd i bobl ddigartref er mwyn cael rhywfaint o gefnogaeth.

### 2.5 Teuluoedd digartref

Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil ddiweddar wedi canolbwyntio ar angen pobl ddigartref heb blant am gefnogaeth. Cafwyd llawer llai o waith ar anghenion posibl teuluoedd digartref am gefnogaeth ac fe dueddwyd i ragdybio mai eu prif angen, neu eu hunig angen, yw cael tŷ. Efallai i hyn ddigwydd oherwydd bod ganddynt hawl fel rheol i gymorth gan yr awdurdod lleol i gael tŷ parhaol,

tra nad oes gan y rhan fwyaf o bobl ddigartref sy'n ddi-blant hawl o'r fath oni bai eu bod hefyd yn agored i niwed a bod arnynt yn amlwg angen cefnogaeth arall, o ganlyniad i anabledd neu afiechyd er enghraifft. Mae'n bosibl fod ar rai teuluoedd digartref angen cefnogaeth am resymau eraill hefyd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau.

### 2.6 Pobl sy'n aros dros dro gyda theulu a ffrindiau

Mae'r bobl hyn, a elwir weithiau y "digartref cudd", yn garfan fawr ac amrywiol ac fe ddylid eu hystyried yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

### 2.7 Sgwatwyr

Dylid ystyried sgwatwyr yn bobl ddigartref. Efallai fod gan rai hanes o fod yn ddigartref ac o gamddefnyddio sylweddau.

### 2.8 Troseddwyr digartref

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod yr anawsterau arbennig a wynebir gan bobl sy'n dod allan o'r carchar. Mae tystiolaeth glir fod carcharorion mewn perygl o fod yn ddigartref (ac o gymryd gorddos) pan gânt eu rhyddhau, a bod hyn yn effeithio ar y tebygolrwydd o aildroseddu. Mae adsefydlu cyn-garcharorion yn llwyddiannus yn hollbwysig o safbwynt diogelwch a sicrwydd i'r gymuned gyfan. I gefnogi'r gwaith hwn, mae'r Gwasanaethau Cwnsela, Asesu, Atgyfeirio, Cynghori a Gofal Drwy'r Broses (CARATS), a chysylltiadau amlasiantaeth eraill oddi mewn i'r carchar (e.e. Cyswllt Carchardai Cymru), yn helpu troseddwyr digartref pan gânt eu rhyddhau. Rhoddir blaenoriaeth uchel i unrhyw un sydd yn ddigartref ac sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau. Darperir gwybodaeth hefyd i bawb sy'n gadael y carchar ynghylch lleihau niwed, i'w helpu gydag adsefydlu.

Mae llawer o gyn-garcharorion yn camddefnyddio sylweddau, ac mae'n bwysig bod gwasanaethau tai a gwasanaethau i rai sy'n camddefnyddio sylweddau yn cydweithio ag asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn cynorthwyo gydag adsefydlu.

Mae troseddwyr a ryddheir ar drwydded yn cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Cyn i garcharor gael ei ryddhau, bydd y Rheolwr Troseddwyr yn paratoi cynllun dedfryd yn seiliedig ar anghenion y troseddwr a bydd wedi enwi'r ymyriadau sydd eu hangen er mwyn adeiladu ar sail gwaith a wnaed yn ystod y rhan o'r ddedfryd a dreuliwyd yn y ddalfa. Nid yw oedolion sy'n cael dedfryd fer (llai na 12 mis yn y ddalfa) yn cael eu goruchwylio ar drwydded ar ôl iddynt gael eu rhyddhau ac mae'n fwy anodd sicrhau bod y cynnydd a wnaed yn y carchar yn parhau ac yn mynd o nerth i nerth wedi i'r unigolyn gael ei ryddhau. Bwriad Cynllun Cymorth y Cyfnod Pontio yw mynd i'r afael ag anghenion ymarferol wrth adsefydlu, ar gyfer y rhai sydd wedi cael dedfryd fer ac sydd â phroblemau parhaus gyda chamddefnyddio sylweddau. Gallai gwasanaethau yn y gymuned fod o gymorth i roi cefnogaeth lawnach drwy ffurfio cysylltiadau cryf cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau, fel y bydd llai o berygl iddo droseddu eto.

At hynny, mae ymyrraeth fuan yn bwysig ar gyfer troseddwyr ym mhob cam yn ystod y broses gyfiawnder troseddol, fel rhan o'r gwaith o atal pobl rhag mynd yn ddigartref a chynnig dewisiadau ar gyfer cael tai; e.e. tai â chymorth, cymorth fel y bo'r angen, llety dros dro, tai anghenion cyffredinol, y sector rhent preifat, ac ati). Mae cydlynu'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau a'r cynllun Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth hefyd yn gymorth yn hyn o beth.

## 3. Cwestiynau ynghylch deddfwriaeth digartrefedd

Mae deddfwriaeth digartrefedd yn gosod nifer o ddyletswyddau ar ysgwyddau awdurdodau lleol ac mae'n rhan o'r cyd-destun ar gyfer darparu triniaeth i'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau.

**Yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod awdurdodau lleol yn ei wneud:**

- *sicrhau bod cyngor a gwybodaeth am ddigartrefedd ar gael i bawb yn eu hardal, a darparu cyngor penodol i bobl ddigartref i'w helpu i gael hyd i dŷ;*
- *sicrhau bod llety ar gael i bobl sy'n ddigartref heb iddynt hwy eu hunain fod ar fai, os ydynt yn un o'r grwpiau y mae eu hanghenion i gael blaenoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys teuluoedd sydd â phlant, menywod beichiog, pobl ifanc, pobl 16 a 17 oed, cyn-garcharorion, a phobl sy'n agored i niwed oherwydd eu bod yn hen, yn sâl neu â hanes o fyw mewn sefydliad. Gellir barnu bod pobl eraill sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn agored i niwed a bod eu hanghenion i gael blaenoriaeth (gweler 7.6), a bydd yn rhaid i'r awdurdod sicrhau tai ar eu cyfer;*
- *adolygu yn rheolaidd anghenion y rhai sy'n ddigartref yn eu hardaloedd a chynhyrchu strategaethau digartrefedd i ddiwallu'r anghenion hyn. O 2008 ymlaen, bwriedir i'r gwaith cynllunio hwn gael ei ymgorffori mewn strategaethau tai lleol, er y gall awdurdodau ddewis parhau i gael strategaeth ar wahân ar ddigartrefedd.*

# RHAN B: Canllawiau Arfer Dda

## 4. Gwasanaethau i'r digartref (statudol a gwirfoddol)

Mae gan wasanaethau gwirfoddol a statudol i'r digartref rôl allweddol i'w chwarae yn y seilwaith lleol ar gyfer cwrdd ag anghenion sy'n codi o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau. Rhan o'r rôl hon yw cefnogi unigolion sy'n gwneud defnydd o wasanaethau i gael triniaeth. Bydd angen i wasanaethau ar gyfer y digartref sicrhau bod eu staff wedi derbyn hyfforddiant digonol er mwyn darparu'r gwasanaethau a ddisgrifir isod, ac fe ddylent holi'r Tîm Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAT) i gael cyngor ynghylch hyfforddiant priodol.

### 4.1 Asesu - gwasanaethau arbenigol i'r digartref

Wrth wneud asesiad cyfannol gyda defnyddiwr gwasanaethau, dylai gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl ddigartref geisio canfod a oes gan yr unigolyn anghenion oherwydd ei fod yn camddefnyddio sylweddau.

**Isafswm gofynion o ran canfod anghenion:**

- *diwallu'r angen am wybodaeth a chyngor ynghylch camddefnyddio sylweddau;*
- *asesu'r risg mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau;*
- *darparu ymyriadau i leihau niwed;*
- *asesu pa wasanaethau sy'n berthnasol ar gyfer yr anghenion a ganfuwyd;*
- *asesu'r angen i atgyfeirio i wasanaethau camddefnyddio sylweddau*.

Dylid datblygu arfau sgrinio mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol yn lleol. Dylai gweithwyr camddefnyddio sylweddau profiadol ac arbenigol hyfforddi staff ar ddefnyddio arfau sgrinio camddefnyddio sylweddau. Argymhellir datblygu arf ar y cyd ar gyfer sgrinio camddefnyddio sylweddau oherwydd y gall gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau adnabod y sgrinio fel y cam cyntaf mewn asesiad camddefnyddio sylweddau.

**Dylid cynnwys y materion a ganlyn wrth sgrinio ar gyfer camddefnyddio sylweddau:**

- *patrymau ac amgylchiadau presennol y camddefnydd;*
- *faint o'r sylwedd sy'n cael ei ddefnyddio;*
- *digwyddiadau pan gymerwyd gorddos;*
- *pryderon personol ynghylch y defnydd;*
- *problemau yn gysylltiedig â hyn, er enghraifft cyfiawnder troseddol, gofal plant, problemau cymdeithasol, iechyd meddyliol a chorfforol;*
- *asesu risg*.

### 4.2 Cyfeirio at driniaeth arbenigol

Dylai gwasanaethau digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau ddatblygu protocolau atgyfeirio mewn partneriaeth â'i gilydd. Cyn i ddefnyddiwr gwasanaethau gael ei gyfeirio at wasanaeth camddefnyddio sylweddau, mae'n rhaid iddo fod wedi deall a chydsynio i hyn a dylid cadw cofnod o hynny. Cyn cael y cydsyniad, dylai staff asiantaeth digartrefedd ofalu bod defnyddwyr gwasanaethau wedi cael gwybodaeth lawn.

**Yr hyn y mae'n rhaid i wasanaethau digartrefedd ei wneud wrth roi gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau:**

- *deall amgylchedd ac athroniaeth pob sefydliad;*
- *deall y math o ymyriadau sy'n cael eu darparu;*
- *deall y meini prawf ar gyfer darparu gwasanaeth;*
- *deall y gweithdrefnau atgyfeirio ac unrhyw broblemau neu oedi sydd yn debygol.*

Dylid rhannu'r wybodaeth hon â'r defnyddiwr gwasanaethau a'i hegluro iddo.

### 4.3 Protocol ar gyfer cydweithio

Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sicrhau bod trefniadau effeithiol yn bod ar gyfer cynllunio a chomisiynu ar y cyd, er mwyn gwarantu bod y trefniadau atgyfeirio a ddisgrifir uchod yn seiliedig ar fynediad realistig at wasanaethau. Dylai'r gefnogaeth gan yr asiantaeth ddigartrefedd barhau hefyd wedi i atgyfeiriad gael ei wneud ar gyfer triniaeth, lle rhoddir caniatâd.

Mae'n bwysig bod yr asiantaethau sy'n bartneriaid yn gwneud yn glir i'w gilydd pa gyfrifoldebau a disgwyliadau sydd gan bawb. Mae datblygu protocol ar gyfer cydweithio yn gam pwysig i sefydlu arferion da er mwyn gwella gwasanaethau yn y maes hwn.

**Dylai protocolau ar gyfer cydweithio gynnwys, neu fynd i'r afael ag:**

- *unigolyn a enwir sydd yn gyfrifol am gyd-drefnu'r cydweithio ym mhob asiantaeth;*
- *gweithiwr allweddol a enwir ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth;*
- *cyfarfodydd ac adolygiadau ar y cyd i fonitro cynnydd;*
- *gweithdrefnau clir ar gyfer cynghori a hysbysu defnyddwyr gwasanaethau a chael eu caniatâd;*
- *llinellau cyfrifoldeb clir a phenodol ar bob mater perthnasol;*
- *yr hyfforddiant sydd ei angen ynghylch swyddogaethau asiantaethau a meini prawf atgyfeirio;*
- *materion cyfreithiol perthnasol ar gyfer staff.*

### 4.4 Gwasanaethau seiciatrig

Mae gan wasanaethau digartrefedd rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran cefnogi cleientiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gan hynny fe ddylid datblygu cysylltiadau â gwasanaethau seiciatrig cymunedol.

## 5. Gwasanaethau arbenigol i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau

Fel y dywedwyd yn y trosolwg ar y ddogfen hon, mae ymchwil yn awgrymu mai'r problemau allweddol a wynebir gan bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau yw:

- cael mynediad at ystod lawn o wasanaethau sy'n gweddu i'w hanghenion;
- dal ati gyda'r driniaeth;
- osgoi mynd yn ôl i'r un amgylchiadau ag a arweiniodd at eu problemau gyda chamddefnyddio sylweddau yn y lle cyntaf;
- sicrhau cefnogaeth ar gyfer ystod o anghenion eraill sydd wedi cyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at driniaeth a dal ati gyda'r driniaeth honno.

### 5.1 Ymyriadau allweddol

**Dyma'r ymyriadau allweddol y dylai gwasanaethau arbenigol i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau eu cynnig:**

- *ystyried y posibilrwydd o roi blaenoriaeth i achosion pobl sy'n ddigartref;*
- *sicrhau bod cleientiaid sy'n ddigartref yn cael mynediad at ystod lawn o wasanaethau sydd yn gweddu i'w hanghenion;*
- *sicrhau cysylltiadau effeithiol â gwaith allgymorth ar y stryd mewn ardaloedd lle mae pobl yn cysgu ar y stryd, i'w hannog i gael triniaeth;*
- *darparu pwyntiau mynediad i wasanaethau mewn mannau a ddefnyddir gan bobl ddigartref, fel canolfannau dydd a hosteli;*
- *lle bynnag y bo modd, bod â pholisi drws agored lle nad oes angen apwyntiad;*
- *ymdrechu i leoli gwasanaethau mewn mannau y gall pobl nad oes ganddynt eu cludiant eu hunain eu cyrraedd, er enghraifft gwasanaethau teithiol mewn ardaloedd gwledig;*
- *cydymffurfio ag isafswm y gofynion ar gyfer amserau aros;*
- *darparu gwasanaeth hyblyg lle ceir darpariaeth os bydd cleientiaid yn gwaethygu eto fwy nag unwaith, efallai;*
- *cydgysylltu ag asiantaethau tai er mwyn sicrhau bod llety sefydlog ar gael, efallai mewn hostel neu dai â chymorth dros dro, nes bydd cleientiaid yn symud i dŷ parhaol;*
- *mynd i'r afael ag anghenion seicolegol defnyddwyr a'u dibyniaeth ar wahanol bethau;*
- *sicrhau y diwallir eu hanghenion o ran cefnogaeth arall;*
- *sgrinio/asesu ar gyfer digartrefedd a chyfeirio i sylw gwasanaeth priodol;*
- *bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau ar gyfer pobl ddigartref yn yr ardal leol;*
- *darparu hyfforddiant priodol ar gyfer staff asiantaethau digartrefedd.*

## 6. Gwasanaethau arbenigol i bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau

Mewn ardaloedd lle ceir llawer o ddigartrefedd, efallai y bydd angen comisiynu gwasanaethau arbenigol i drin pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau, yn ogystal â gwella'r mynediad at wasanaethau prif ffrwd. Efallai y bydd rhai o'r gwasanaethau hyn yn fwy abl i weithio mewn ffyrdd hyblyg ac arloesol gyda phobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau ac y bydd y bobl hyn yn ymddiried ynddynt yn well.

Gall gweithwyr digartrefedd medrus ddarparu rhai gwasanaethau arbenigol a bydd gwasanaethau eraill yn cael eu darparu gan weithwyr camddefnyddio sylweddau sy'n darparu gwasanaeth lloeren oddi mewn i asiantaeth digartrefedd.

### 6.1 Allgymorth ar y stryd

Dylai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gyda mynediad agored (gwasanaethau Haen 2) fod ar gael i bobl sy'n cysgu ar y stryd. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r rhain yw trwy gydweithio rhwng gwasanaethau trin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau ac asiantaethau digartrefedd. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn ymwneud â lleihau niwed, a ddylai annog pobl ddigartref i sefydlogi eu defnydd o sylweddau a chael llety.

**Elfennau y dylid eu cynnwys mewn gwasanaethau lleihau niwed sy'n gweithio ar y stryd:**

- *cyfnewid nodwyddau;*
- *cyngor ynghylch chwistrellu diogelach, yfed diogelach a rhyw diogelach;*
- *cyngor ynghylch defnyddio pob camddefnyddio sylwedd yn fwy diogel, gan gynnwys atal gorddos;*
- *cefnogaeth i gael gafael ar driniaeth;*
- *cefnogaeth i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, gan gynnwys gofal sylfaenol a chyngor ar fudd-daliadau;*
- *cefnogaeth i sicrhau bod anghenion maeth yn cael eu diwallu.*

Dylid cynllunio gwasanaethau'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan i annog pobl i roi'r gorau i fyw ar y stryd, yn hytrach na'i gwneud yn haws i bobl fyw ar y stryd. Er enghraifft, dylent annog pobl lle bynnag y bo modd i fynd i hostel neu o leiaf i ganolfan ddydd er mwyn derbyn gwasanaethau ychwanegol, yn hytrach na darparu ar gyfer eu holl anghenion yn uniongyrchol ar y stryd. (Efallai y bydd ar bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau angen magu hyder yn y gwasanaeth allgymorth cyn y gellir eu hannog i fynd at wasanaethau prif ffrwd, felly mae'n bosibl y bydd angen gwneud pethau cam wrth gam.)

### 6.2 Canolfannau dydd

Dylid cynnig gwasanaethau mynediad agored Haen 2 hefyd mewn canolfannau dydd ar gyfer pobl ddigartref, neu fel gwasanaethau arbenigol i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau gan ddilyn yr un math o drefn ag ar gyfer gwasanaethau ar y stryd. Ar yr un pryd ag y cynigir y gwasanaethau hyn, dylid annog pobl i sefydlogi eu defnydd a, lle bo hynny'n berthnasol, i symud i mewn i hostel neu lety arall addas.

Gallai asiantaethau camddefnydd sylweddau gynnig gwasanaethau lloeren teithiol mewn nifer o asiantaethau. Gallai hyn fod yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd gwledig lle mae'r cysylltiadau cludiant yn wael. Mae'n annhebygol y gellid darparu triniaeth yn y gymuned mewn modd effeithiol gan ddefnyddio canolfannau dydd i bobl ddigartref, yn achos rhai pobl ddigartref, gan fod ar gleientiaid angen llety sefydlog. Fodd bynnag, gallai canolfannau dydd ac yn arbennig ganolfannau meddygol arbenigol ar gyfer pobl ddigartref ddarparu gwasanaethau Haen 3 hefyd, gan gynnwys gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer y rhai sydd â llety sefydlog.

### 6.3 Hosteli, cysgodfannau a darpariaeth argyfwng

Dylid cynnig gwasanaethau Haen 2 hefyd mewn hosteli lle ceir nifer sylweddol o bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae manteision mewn cynnig gwasanaethau yn yr adeilad, gan eu bod yn debygol o allu helpu pobl sy'n camddefnyddio sylweddau ac sydd mewn llanast, na fyddent o angenrheidrwydd yn mynd at asiantaeth allanol. Gall gweithwyr hostel medrus gynnig cyngor a gwybodaeth sylfaenol ac asesiadau cychwynnol. Mae hostel hefyd yn ganolfan dda ar gyfer gwasanaethau lleihau niwed i bobl ddigartref. Gall gweithwyr camddefnyddio sylweddau, a gyflogir gan yr hostel neu gan wasanaeth trin camddefnyddio sylweddau sy'n darparu gwasanaeth lloeren yn yr hostel, ddarparu gwasanaethau mwy arbenigol. Mae'n hanfodol bod y rhain yn cael cefnogaeth a goruchwyliaeth gan weithwyr proffesiynol.

Lle bo hosteli yn gwneud darpariaeth i bobl aros am gyfnod hwy, efallai y gellir ystyried unedau arbenigol ar wahân oddi mewn i'r hostel lle darperir gwasanaethau preswyl (Haen 4a), gan gynnwys gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan gyrff

statudol h.y. dadwenwyno ac adsefydlu. Gall yr unedau hyn weithio mewn rhannau hunangynhwysol o'r hostel, er enghraifft llawr ar wahân gyda'i fynedfa'i hun. Dylai prosiectau o'r fath ddarparu mynediad hefyd at lety y gellir symud ymlaen iddo ac yn y pen draw at dai parhaol. Gall yr unedau hyn annog pobl i gael triniaeth na fuasai wedi derbyn triniaeth fel arall a gall hefyd olygu na fyddant yn mynd yn ddigartref os byddant yn llithro'n ôl.

Dylai'r rheolau ynghylch hysbysu a defnydd cyffuriau (h.y. pryd yr hysbysir awdurdodau) fod yn glir ac yn agored i'r holl gleientiaid. Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fod yn ymwybodol o'r rheolau a'r rheoliadau a gynhwysir yn y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau (1971) Adran 8.

## 7. Llety i bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau

Mae pobl sydd heb lety diogel yn llai tebygol o fynd am driniaeth ac mae'r rhai sy'n gorffen triniaeth ac sydd heb lety a chefnogaeth addas, yn debygol iawn o lithro'n ôl. Dylid cysylltu gwasanaethau sy'n cynnig triniaeth i bobl ddigartref, megis dadwenwyno ac adsefydlu, â chynlluniau ehangach ar gyfer llety a chefnogaeth. Nid yw hynny'n golygu o angenrheidrwydd y bydd cleientiaid yn symud yn syth i dai parhaol. Yn aml, bydd hosteli a llety â chymorth yn fwy addas fel cam cyntaf.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael fel na fydd pobl sy'n camddefnyddio sylweddau yn colli eu llety. Gan hynny mae'n hanfodol bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cydweithio'n glòs ag asiantaethau digartrefedd a darparwyr llety er mwyn cynllunio i ddarparu llety addas i bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau.

Gall y rhai hynny sy'n camddefnyddio sylweddau ac y mae eu ffordd o fyw yn llanast, olygu problemau rheoli ar gyfer asiantaethau. Gellir lleihau'r risg hon drwy ddarparu cefnogaeth arbenigol. Bydd angen hosteli a thai â chymorth hefyd lle nad yw sylweddau'n cael eu defnyddio - yn arbennig felly ar gyfer rhai sydd wedi rhoi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau ac ar gyfer pobl ddigartref sy'n gwrthwynebu gorfod rhannu llety â phobl sydd ar hyn o bryd yn camddefnyddio sylweddau.

### 7.1 Asesu anghenion am lety a'u diwallu

Bydd y math o lety sydd fwyaf addas yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn ac ar ba gam y mae yn ei driniaeth. Mae asesu anghenion y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau am lety a sicrhau eu bod yn cael eu diwallu ar bob cam yn y driniaeth, yn ganolog mewn rhaglenni effeithiol ar gyfer pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau. Dylai hyn oleuo eu cynllun gofal. Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sicrhau bod gwasanaethau i drin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau yn cydweithio ag asiantaethau tai fel y cynhwysir anghenion llety defnyddwyr yn eu cynlluniau gofal.

Mae'n hanfodol cynnwys holl anghenion y cleient am wasanaethau pan ddatblygir y cynllun adsefydlu ac mae'n rhaid ei wneud yn ddigon buan cyn i'r unigolyn symud allan o lety ar bob cam. Y peth mwyaf effeithiol i'w wneud yn aml fydd gwneud asesiad ar y cyd ag asiantaeth digartrefedd neu dai. Dylid cytuno ar gyd-brotocolau ar gyfer atgyfeirio pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau at asiantaethau tai. Mae'n hanfodol nad yw asiantaethau sy'n atgyfeirio yn dweud bod lefel y camddefnydd, neu anghenion eraill cleientiaid am gefnogaeth, yn llai nag ydynt er mwyn ceisio cael llety iddynt. Mae hynny'n debygol o arwain at fethu sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael ac at risg uchel y bydd yr unigolyn yn mynd yn ddigartref eto. Hefyd, fe ddylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol weithio gyda darparwyr llety o bob math er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon derbyn pobl

ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau, ar yr amod bod cynlluniau gofal wedi'u gwneud i'w cefnogi ac i'w trin yn y pen draw.

Mae faint o lety a chefnogaeth sydd ar gael, a'r math sydd ar gael, yn amrywio'n fawr o ardal i ardal. Dylai Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau gydweithio'n glòs â strategaethau tai a digartrefedd awdurdodau lleol ac â rhaglenni Cefnogi Pobl er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n bod ar gyfer llety a chefnogaeth i ddiwallu anghenion y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau yn yr ardal. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys yr angen i fod yn barod i ymateb i amgylchiadau sydd yn newid ym mywydau cleientiaid ac i unrhyw argyfyngau a ddaw i'w rhan. Dylid ystyried darparu llety sy'n gallu derbyn pob cleient sy'n parhau i gamddefnyddio sylweddau a phob un sy'n llwyrymwrthod, gan ddarparu cyfleusterau ar wahân yn yr un adeilad.

### 7.2 Cysgodfannau nos

Mae cysgodfannau nos traddodiadol yn cynnig llety syml mewn ystafell gysgu gyffredin. Bydd y rhai sy'n aros yno yn bwcio i mewn bob nos ac ni chânt ddod i mewn yn ystod y dydd. Cynigiant gefnogaeth gyfyngedig yn unig o safbwynt anghenion eraill. Nid yw cysgodfannau nos yn debygol o fod yn addas ar gyfer gwaith manwl gyda phobl sy'n camddefnyddio sylweddau, er y gallai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu helpu i weithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer gwasanaethau lleihau niwed ac atgyfeirio at wasanaethau sy'n rhoi triniaeth. Gellid annog cysgodfannau nos hefyd i helpu preswylwyr i symud i hosteli tymor hwy fel cam cyntaf tuag at fynd i'r afael â'u problemau gyda chamddefnyddio sylweddau.

### 7.3 Hosteli

Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fod mewn cysylltiad â'r holl hosteli ar gyfer pobl ddigartref yn eu hardal, trwy gyfranogi yn nhrefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer cynllunio ym maes digartrefedd. Dylai hosteli fod yn bartneriaid gweithredol mewn gwaith cynllunio ac mewn rhai achosion gellir cynnig gwasanaethau i drin camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl ddigartref yn yr hostel.

Mae llawer o hosteli yn gwrthod derbyn neb sy'n camddefnyddio sylweddau, fel ei bod yn anodd iawn i bobl ddigartref gael triniaeth lwyddiannus. Fodd bynnag, mae rhai hosteli'n gallu gweithio'n llwyddiannus â phobl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gynllunio ar y cyd â hosteli er mwyn darparu llety, lleihau niwed a rhoi triniaeth i bobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau. Gall sefydliadau lleol ddarparu enghreifftiau o arfer da.

Mae angen i reolwyr fod yn gwbl fodlon eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith yn y mater hwn.

### 7.4 Tai â chymorth

Y cam nesaf ar gyfer rhai cyn-gamddefnyddwyr sylweddau sy'n byw mewn hostel a rhai sydd yn symud ymlaen o driniaeth breswyl, fydd mynd i fath arall o dŷ â chymorth. Gall tai â chymorth hefyd fod yn fan i bobl ddod i gysylltiad â gwasanaethau sy'n rhoi triniaeth yn y gymuned. Efallai y bydd ar rai pobl sy'n parhau i ddefnyddio sylweddau hefyd angen tai â chymorth.

I rai cleientiaid, bydd angen cyfnod o gefnogaeth ddwys er mwyn sicrhau na fyddant yn llithro'n ôl neu'n colli eu tenantiaeth. Yna efallai y bydd modd iddynt symud i dai annibynnol. Efallai y bydd angen tai â chymorth yn yr hirdymor ar gyfer pobl sydd ag angen mawr iawn, er enghraifft y rhai sydd â diagnosis deuol sef camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Ymhlith y modelau ar gyfer tai â chymorth y mae:

- *rhannu tai* - lle mae gan bobl eu hystafell wely eu hunain ond yn rhannu cyfleusterau â phreswylwyr eraill;
- *fflatiau clwstwr* - lle mae gan breswylwyr eu fflat eu hunain ond efallai y bydd rhai ardaloedd cyffredin, megis y gegin;
- *tai yma ac acw* gyda chefnogaeth yn ymweld;
- *cymorth fel y bo'r angen.*

## 7.5 Swyddogaeth tai parhaol er mwyn trin camddefnydd sylweddau yn effeithiol

Efallai y bydd gan rai pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau hanes o ddiweithdra ac y bydd lefel eu sgiliau yn isel. Gall eu rhagolygon ar gyfer tai yn yr hirdymor fod yn y sector rhent cymdeithasol, y sector preifat neu berchennog-feddiannwr yn strategaeth ddigartrefedd yr awdurdod lleol. Mae modd hwyluso mynediad drwy'r sector preifat drwy gyfrwng cynlluniau bond.

Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol roi sylw i anghenion pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau, o safbwynt y strategaeth dai leol a chan drafod ag awdurdodau lleol, y sector preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, drwy gyfranogi yn y rhaglenni lleol ar gyfer cynllunio ar ddigartrefedd a Chefnogi Pobl. Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd adolygu unrhyw allgáu blaenorol pan ystyrir ceisiadau gan bobl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Cydnabyddir bod cleientiaid yn barotach i gymryd rhan a dal ati gyda rhaglenni cynnal a llwyrymwrthod camddefnyddio sylweddau pan fyddant yn byw mewn tai parhaol.

## 7.6 Dehongli deddfwriaeth digartrefedd

Dylai Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau drafod ag awdurdodau tai i ba raddau y dylai awdurdodau gymryd problemau camddefnyddio sylweddau i ystyriaeth pan fyddant yn asesu a ddylid ystyried unigolyn sy'n gwneud cais fel rhywun digartref yn rhywun sy'n agored i niwed dan ddeddfwriaeth digartrefedd a chan hynny yn rhywun sydd â hawl i lety.

Nid yw camddefnyddio sylweddau yn cael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth fel rheswm penodol dros ystyried ymgeiswyr digartref yn bobl agored i niwed, ond fe all awdurdodau ystyried ymgeiswyr am unrhyw "*reswm arbennig arall*". Mae Cod Canllawiau ar Ddigartrefedd 2003 yn dweud (nid yw'r ddogfen ar gael yn Gymraeg):

"*The critical test of vulnerability for applicants...is whether, when homeless, the applicant would be less able to fend for himself than an ordinary homeless person so that he would be likely to suffer injury or detriment, in circumstances where a less vulnerable person would be able to cope without harmful effects*". Gallai rhai pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau ddod o fewn y diffiniad hwn.

Dylid ystyried pob cais ar sail digartrefedd ar ei haeddiant a dylai awdurdodau ystyried amgylchiadau pob unigolyn sy'n camddefnyddio sylweddau. Gall rhai fod yn gymwys i'w hystyried yn agored i niwed am ryw reswm arall, er enghraifft oherwydd bod ganddynt blant yn ddibynnol arnynt, fod ganddynt broblemau iechyd meddwl, neu o ganlyniad i gyfuniad o wahanol anghenion lle mae camddefnyddio sylweddau yn un o blith nifer o bethau.

Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau trin camddefnydd sylweddau ystyried y ffyrdd y gall camddefnyddio problemus o sylweddau gyfrannu at wneud pobl yn agored i niwed mewn achosion unigol.

Dylai Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau drafod ag awdurdodau tai bwysigrwydd cymryd problemau camddefnyddio sylweddau i ystyriaeth a'r angen am lety sefydlog ar gyfer camddefnyddwyr sy'n gwella, wrth ystyried a yw pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau yn agored i niwed ai peidio, pan fyddant yn gwneud cais i'r awdurdod lleol.

### 7.7 Cyd-drefnu gosod tai ac anghenion am driniaeth

Mae'n bwysig iawn bod tai ar gael i bobl sy'n gorffen cyfnod adsefydlu pan fydd arnynt eu hangen. Os cynigir tai yn rhy fuan, er enghraifft pan fo cleientiaid yn dal i fod mewn triniaeth breswyl, mae'n bosibl y cânt eu temtio i adael y driniaeth er mwyn derbyn y cynnig. Os nad oes tai addas ar gael pan fyddant yn gorffen y driniaeth, mae mwy o berygl y byddant yn llithro'n ôl.

Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cydweithio â'r holl gyrff sy'n darparu llety er mwyn cael mynediad at lety gydag amserlenni ar gyfer triniaeth. Ar gyfer cleientiaid eraill nad ydynt wedi bod yn cael triniaeth breswyl, mae cael cynnig llety sefydlog ynddo'i hun yn rhan hollbwysig o'r driniaeth.

### 7.8 Maes ar gyfer newid pwyslais (adsefydlu)

Mae ar lawer o bobl eisiau cael tŷ nad yw yn ymyl y fan lle buont yn camddefnyddio sylweddau o'r blaen, er mwyn osgoi cysylltiad â rhai o'r bobl yr oeddent wedi'u hadnabod ac â delwyr. Mae'n bwysig cynnig tŷ o'r fath oddi mewn i stoc y landlord ac mewn cyd-ddealltwriaeth â landlordiaid eraill. Gall cefnogaeth gymdeithasol a chefnogaeth deuluol gref wneud y driniaeth yn fwy llwyddiannus. Lle bo gan gleientiaid gefnogaeth o'r fath, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau tai iddynt yn agos at eu rhwydweithiau cefnogaeth. Dylai cleientiaid fod â chynlluniau gofal a chyd-drefnwyr gofal. Dylai peirianwaith fod wedi'i sefydlu i sicrhau bod llety ar gael i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau ac sy'n symud i mewn i'r ardal.

### 7.9 Cefnogi tenantiaid

Mae angen i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol chwarae rôl ganolog ochr yn ochr ag awdurdodau lleol a phartneriaethau Cefnogi Pobl, wrth gomisiynu ystod o wasanaethau cefnogol ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys pobl ddigartref. Gall cefnogi tenantiaid fod yn gymorth i ofalu nad yw pobl yn mynd yn ddigartref.

Dylai ystod o gefnogaeth fod ar gael o fewn yr adnoddau er mwyn rhoi sylw i'r materion a ganlyn:

- *dewis cartref newydd sydd yn addas a hynny ar adeg pan yw'r cleient yn barod i reoli ei gartref ei hun;*
- *Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau;*
- *symud i mewn a dodrefnu'r cartref.*

Fel rheol byddai Cefnogi Pobl yn rhoi cefnogaeth ariannol i:

- *sicrhau bod y tenant yn deall ei hawliau a'i gyfrifoldebau, yn enwedig talu rhent;*
- *hawlio budd-daliadau lles;*
- *rheoli arian;*
- *cymorth sylfaenol gyda phroblemau personol ac emosiynol;*
- *mynediad at gefnogaeth arbenigol ar gyfer problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau;*
- *datrys anghydfod gyda chymdogion neu'r landlord;*
- *addysg, cyflogaeth a hyfforddiant;*
- *helpu'r tenant i fod yn rhan o'r gymuned leol;*
- *cyd-drefnu a bod yn frocer i wasanaethau eraill;*
- *cefnogaeth mewn argyfwng os yw tenant mewn perygl o roi'r gorau i'w gartref*.

Mae'n bwysig nodi y gall yr arian ar gyfer yr holl wasanaethau hyn ddod o nifer o wahanol ffynonellau ac y dylai sefydliadau sy'n comisiynu weithio mewn modd hyblyg i ddiwallu'r anghenion a welir.

Gall cefnogaeth effeithiol i denantiaid gadw nifer y tenantiaethau sy'n methu ar lefel isel iawn.

Rhai o nodweddion cyffredin cynlluniau llwyddiannus yw:

- cefnogi pobl sydd ag amryw o anghenion a pheidio â'u cau allan oherwydd bod ganddynt, er enghraifft, broblemau iechyd meddwl a phroblemau gyda'u defnydd o sylweddau;
- darparu cefnogaeth fanwl cyn i'r denantiaeth ddechrau er mwyn sicrhau bod y tai a gynigir yn addas a bod pobl yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau;
- canolbwyntio ar ffyrdd ymarferol o gynnal y denantiaeth, yn hytrach na cheisio datrys holl broblemau'r cleient;
- darparu gwasanaethau amlddisgyblaethol, heb derfynau proffesiynol disymud rhwng gwahanol aelodau tîm;
- cefnogaeth gadarnhaol sydd yn ceisio gwneud y tenantiaid yn rhan o'r gwasanaeth. (Nid yw gwneud dim ond cynnig y gwasanaeth yn debygol o fod yn llwyddiannus gyda llawer o gleientiaid ond mae angen rhoi ystyriaeth briodol i anghenion y cleientiaid);
- ffordd hyblyg o weithio ac yn aml bydd asiantaethau annibynnol yn well am reoli hyn. Mae hefyd yn bwysig i gleientiaid bod gweithwyr cefnogi'n cael eu hystyried yn annibynnol ar y landlord ac nid yn rhan o'r drefn statudol, y mae llawer ohonynt yn teimlo eu bod wedi'u dieithrio oddi wrthi;
- ar gyfer tenantiaid y mae arnynt angen tai â chymorth yn yr hirdymor, darparu strategaeth ymadael;
- cyfarwyddyd a phrotocolau clir ar gyfer gweithwyr cefnogol mewn cynlluniau.

## 8. Ffynonellau/cyfeiriadau ar gyfer y fframwaith

Ni wnaeth y gweithgor a sefydlwyd er mwyn cynhyrchu'r fframwaith gomisiynu ymchwil newydd ond fe ddibynnodd yn helaeth ar dair dogfen o bwys fel ffynonellau. Mae tair dogfen arall hefyd yn cael eu cynnwys fel adnoddau.

[1] **Sefydliad Iechyd y Byd** - *How can health care systems effectively deal with the major health care need of homeless needs of homeless people (2005).*

Synthesis gan y Rhwydwaith Tystiolaeth Iechyd yw hwn sydd yn canolbwyntio ar y dystiolaeth ynghylch triniaeth effeithiol ar gyfer pob math o afiechyd y bydd pobl ddigartref yn aml yn dioddef ohono.

[2] **Astudiaeth Ymchwil 258 y Swyddfa Gartref** - *Youth homelessness and substance use: report to the substance misuses and alcohol research unit (2003)* Dr Emma Wincup, Gemma Buckland a Rhianon Baylis.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth ymchwil ynghylch camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc ddigartref yng Nghymru a Lloegr yn ystod cyfnod o 18 mis gan ddechrau yn Ionawr 2001. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi'r profiad mwyaf diweddar o anghenion pobl ddigartref sy'n camddefnyddio sylweddau, sydd yn penderfynu beth fydd cynnwys y canllawiau arferion da.

[3] **Y Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd** - *Drug Services for homeless people - good practice handbook (2002).*

Comisiynwyd y llawlyfr hwn ar y cyd gan Gyfarwyddiaeth Digartrefedd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a Chyfarwyddiaeth Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau'r Swyddfa Gartref. Fe'i cynhyrchwyd gan grŵp amladrannol a oedd yn cynnwys y Swyddfa Gartref, yr Asiantaeth Driniaeth Genedlaethol a'r Adran Iechyd. Roedd y llawlyfr wedi'i dargedu'n arbennig ar gyfer timau gweithredu camddefnyddio sylweddau yn Lloegr, y mae'r Timau Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn gwneud yr un gwaith â hwy i raddau helaeth, fel is-grwpiau i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae llawer o'r arferion da a argymhellir yn y fframwaith yn dod yn uniongyrchol o'r llawlyfr hwn.

[4] Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD) - **Hidden Harm** - Responding to the needs of children of problem drug users.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwiliad gan y Cyngor lle canolbwyntir sylw ar blant i bobl sydd â phroblem defnyddio cyffuriau. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif pa nifer o blant sy'n cael eu heffeithio yn y modd hwn yn y DU, yn edrych i mewn i ganlyniadau uniongyrchol a hirdymor y ffaith fod eu rhieni'n defnyddio cyffuriau ar gyfer y plant hyn o adeg eu cenhedlu tan y glasoed, yn ystyried y rhan a chwaraeir ar hyn o bryd gan wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, cyfiawnder troseddol a gwasanaethau eraill perthnasol, yn dweud beth yw'r polisi a'r arferion gorau yn y wlad hon a thramor ac yn gwneud argymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer.

[5] Deddf Tai 1996 (cyf).

[6] Cod Canllawiau ar Ddigartrefedd (Llywodraeth Cynulliad Cymru) cyf.